## JOHN GRIFFITHS AS – AELOD O'R SENEDD DROS DDWYRAIN CASNEWYDD

### ADRODDIAD YN DILYN TAITH I MBALE, DWYRAIN UGANDA - 10 - 20 CHWEFROR 2023

### Cyflwyniad

Ym mis Chwefror eleni cefais wahoddiad i ymuno â PONT, sef elusen fach o Dde Cymru, i ddysgu rhagor am sut mae'n gweithio gyda rhaglen Cymru o Blaid Affrica Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill i drechu tlodi, a gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl, yn enwedig ym maes iechyd, addysg a datblygu cymunedol ym Mbale, Dwyrain Uganda. Mae'r grŵp yn cael ei gynnal gan wirfoddolwyr drwy gysylltiadau cymunedol uniongyrchol, ac mae'n bartneriaeth sy'n seiliedig ar gyfeillgarwch, ymrwymiad a pharch. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar rai o'r prosiectau a'r mentrau, yn enwedig y rhai sy'n rhoi sylw i ofal iechyd, a welais yn cael eu datblygu pan oeddwn ym Mbale.

Hefyd fe fûm yn aros yn y datblygiad caban eco-gyfeillgar o eiddo i PONT. Mae yno fwyty gyda golygfeydd panoramig ac mae'n cynnal llawer o gyfarfodydd. Mae'n cynnwys parc anifeiliaid y mae ysgolion lleol yn ymweld ag ef. Cynlluniwyd y datblygiad hwn i hyrwyddo twristiaeth ac i helpu i gynnal PONT a rhaglenni'r elusen.

### GWEITHWYR IECHYD CYMUNEDOL

Ers pymtheng mlynedd mae PONT wedi bod yn adeiladu rhwydwaith effeithiol o Weithwyr Iechyd Cymunedol a fflyd o Ambiwlansys Beic Modur. Maent yn helpu i wasanaethu poblogaeth o tua hanner miliwn o bobl mewn ardaloedd gwledig o amgylch Mbale. Dros y cyfnod hwn, mae canlyniadau iechyd wedi gwella gan fod y rhaglenni hyn yn gweithio'n agos gyda llywodraeth leol, y gwasanaethau iechyd a grwpiau eraill yn y gymuned.

Yn ystod y daith, cyhoeddodd yr elusen o Bontypridd y bydd 240 o Weithwyr Iechyd Cymunedol newydd ychwanegol ar gael. Mae hon yn fenter sydd wedi'i gwireddu drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru drwy ei rhaglen Cymru o Blaid Affrica. Mae'r 240 o bobl wedi'u dewis o bentrefi gwledig nad oes ganddynt ofal iechyd lleol ar hyn o bryd, a byddant yn darparu cymorth meddygol y mae mawr ei angen ar gyfer hyd at 120,000 o bobl. Drwy gwrs hyfforddi, byddant yn dysgu sut i wneud diagnosis o glefydau cyffredin, yn hyrwyddo amgylcheddau byw iach, ac yn nodi a chyfeirio cleifion sydd angen triniaeth ysbyty. Bydd ffocws arbennig eu gwaith ar iechyd mamau beichiog a phlant ifanc, oherwydd ar hyn o bryd mae cyfraddau marwolaeth mamau a phlant ifanc yn parhau yn uchel. Dywed PONT y bydd y gweithwyr iechyd cymunedol yn gwneud gwahaniaeth enfawr, ac yn dod yn achubwyr bywyd yn eu pentrefi eu hunain.

### HYFFORDDIANT IECHYD MEDDWL

Pan oeddwn yn Uganda, dywedwyd wrthyf fod iechyd meddwl gwael yn effeithio ar gynifer â 14 miliwn o bobl yn y wlad. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, mae PONT wedi dechrau gweithio gyda grwpiau iechyd i gynnal cyrsiau ymwybyddiaeth o anhwylderau iechyd meddwl. Lansiwyd hwn pan oeddwn yn Mbale. Yn ystod y daith, bu tîm o weithwyr iechyd proffesiynol o Gymru ac Uganda yn cydweithio i gynllunio a chyflwyno cwrs "hyfforddi'r hyfforddwr" ar gyfer 80 o weithwyr iechyd y llywodraeth a staff partner sefydliadau anllywodraethol. Roedd hyn yn hybu dealltwriaeth, ac o gymorth i adnabod salwch meddwl, ac roedd pwyslais arbennig ar leihau stigma ac annog agweddau tosturiol. Cafodd yr hyfforddiant dderbyniad da iawn, ac roedd y rhai a ddilynodd yr hyfforddiant yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus i adnabod a rheoli problemau iechyd meddwl. Y nod tymor hwy yw hyfforddi'r 1200 o Weithwyr Iechyd Cymunedol presennol sydd wedi'u lleoli mewn pentrefi ar hyd a lled y rhanbarth.

### AMBIWLANSYS BEIC MODUR

Un arall o'r prif brosiectau a welais oedd y gwaith sy’n gysylltiedig â chynyddu capasiti'r fflyd ambiwlansys beiciau modur. Ar hyn o bryd, mae tri deg dau i gyd ac mae darparwyr iechyd wedi gofyn i PONT ymchwilio a all ddod o hyd i gyllid ar gyfer pum deg pedwar arall dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Oherwydd natur y dirwedd a hygyrchedd o ran rhai o'r pentrefi anghysbell, mae'r cerbydau hyn yn hollbwysig wrth ymateb i argyfyngau ac achub bywydau. Yn ystod fy amser yno, ynghyd â thîm PONT, bûm i’n helpu i ddosbarthu helmedau, menig, a dillad rhag tywydd garw newydd i'r gyrwyr. Darparwyd yr arian ar gyfer hyn gan grant gan Sefydliad Cadbury.

## PLANNU COED A DATBLYGU GWLEDIG

Bûm yn ymweld hefyd â phlanhigfeydd a datblygiadau plannu coed a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys i dyfu Jacffrwyth a mango, sy’n creu incwm gwerthfawr i bentrefi gwledig, yn ogystal â helpu i fwydo teuluoedd a mynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae newid hinsawdd yn cael effaith gynyddol ar dyfu planhigion, ac mae newidiadau i dywydd pob tymor a thirlithriadau enbyd yn achosi marwolaeth, anafiadau a dinistr.

Ymhellach, gwelais rym prosiectau tebyg i’r hyn y mae PONT yn ei ddarparu, sef rhoi gafr i deuluoedd mewn pentref, sydd wedyn yn bridio geifr ac yn rhoi un i deulu arall, ac mae’r cylch yn tyfu fel pelen eira. Mae'r teulu hwnnw yn gwneud yr un modd ac yn creu ffynonellau newydd pwysig o fwyd ac incwm.

## CYFARFOD AG UCHEL GOMISIYNYDD PRYDAIN I UGANDA - KATE AIREY

Ar ddiwrnod olaf y daith, cyfarfu fi a thri arall o dîm PONT â Kate Airey, Uchel Gomisiynydd Prydain i Uganda yn ei chartref ei hun yn Kampala, prifddinas Uganda. Cafodd ei phenodi ar ddiwedd 2019, a hithau wedi dechrau yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu yn 2005, a chyn hynny, bu'n gweithio i Oxfam. Yn ystod ein cyfarfod, buom yn trafod ein profiadau ar ein taith ymweld arbennig, y gwaith parhaus a gyflawnir gan raglenni Cymru-Affrica Llywodraeth Cymru, y prosiectau a’r gweithgareddau penodol sy’n cael eu datblygu gan PONT ym Mbale a sut y gellid darparu rhaglenni a ffyrdd tebyg o weithio’n ehangach ar hyd a lled y wlad.

## CYSYLLTU Â’R SENEDD

Mae’r profiad a’r wybodaeth a gefais wedi helpu fy ngwaith fel Aelod o’r Senedd – mewn trafodion y Cyfarfod Lawn, ar ddatganiadau yn ymwneud â Chymru ac Affrica yn benodol, ac o ran rôl Cymru yn y byd yn ehangach, mewn pwyllgorau a gwaith etholaethol.

Ers ymweld â Mbale, rwyf wedi cyfarfod â’r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, y mae cysylltiadau Cymru ac Affrica yn rhan o’i bortffolio. Rwyf wedi amlinellu ble rwy’n meddwl bod y rhaglenni’n gweithio’n dda, a hefyd gyda chefnogaeth PONT, wedi nodi cynigion ynghylch darparu gofal iechyd integredig i dair miliwn o bobl yn Affrica. Mae hyn wedi deillio o’r cysylltiadau iechyd hirsefydlog rhwng Cymru ac Uganda, a'i nod yw darparu gwasanaethau ambiwlansys beic modur cymunedol i bedwar rhanbarth yn y wlad.

Rwy’n cynrychioli etholaeth amlddiwylliannol, sy’n cynnwys unigolion a grwpiau sydd â chysylltiadau Affricanaidd cryf. Mae’r ymweliad hwn wedi rhoi’r cyfle i mi gysylltu grwpiau a sefydliadau o Gasnewydd a’r ardal ehangach, â’r rhai y cyfarfûm â hwy ym Mbale. Un o’r ffyrdd y byddaf yn ceisio gwneud hyn fydd drwy ein digwyddiad Diwrnod Affrica blynyddol yng Nghasnewydd. Bydd digwyddiadau fel hyn yn galluogi inni hyrwyddo Cymru a gwaith y Senedd ac i wella enw da y Senedd mewn cyd-destun rhyngwladol.

Yn olaf, fis nesaf byddaf yn noddi digwyddiad yn y Senedd gyda Masnach Deg Cymru, ble byddaf hefyd yn rhannu fy mhrofiadau o’r daith a gwybodaeth am raglenni Cymru ac Affrica.

**CASGLIAD**

Braint o’r mwyaf oedd cael mynd i Mbale gyda PONT a bod yn rhan o’r gwaith da iawn sy’n digwydd yno, ym maes iechyd, addysg a datblygu cymunedol. Mae'r partneriaethau a'r cyfeillgarwch a gafodd eu meithrin a'u cynnal dros nifer o flynyddoedd yn dyst i werth a chryfder y gwaith hwn. Mae gweld cymunedau yn Uganda a Chymru yn cymryd rhan mewn prosiectau sydd o fudd i bawb yn rhan bwysig o ymgysylltiad rhyngwladol ein gwlad. Rydym yn ffodus yng Nghymru i fod yn rhan o fyd cymharol ddiogel a llewyrchus. Mae hyn yn rhoi rheidrwydd moesol i ni estyn allan at wledydd ble y mae rhagor o angen. Fel Aelod o’r Senedd, roeddwn yn falch o gael y cyfle i weld sut y mae PONT yn gweithio, gan gynnwys, gweithio fel rhan o Raglen ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer Affrica, a’r hyn y gellir ei gyflawni a’i gynnal gyda dull cymunedol sydd o fudd yn eang. Rwy’n teimlo’n freintiedig i fod yno ac o wneud llawer o ffrindiau newydd yn Pont ac yn Mbale, ac i fod wedi gweld ymrwymiad, egni a threfniadaeth pawb a fu’n cymryd rhan.





John Griffiths AS – Dwyrain Casnewydd – john.griffiths@senedd.cymru – 01633 222302john.griffiths@senedd.cymru